Ardal Caerhun – Nodiadau Rhanddeiliaid a Enwebwyd
Dydd Iau 12 Tachwedd 2009

Presennol: Geraint James (GJ) (Pennaeth Statudol Gwasanaethau Addysg)
Dilwyn Price (DP) (Pennaeth Gwasanaethau Gwella Ysgolion)
Emma Bayliss (EB) (Rheolwraig y Cynllun)
Gareth Thomas (GT) (TJB)
David Batten (DB) (TJB)
Cynan Jones (CJ) (TJB)

Arsylwyr: Cyng. W. E. Jones
Cyng. G. O. Edwards
Cyng. E. M. Thomas

1. Cyflwyniad

Rhoddodd GT gyflwyniad gan esbonio'r gweithdy.

2. Cyflwyniadau

Rhoddodd GJ gyflwyniad ar gynnydd y cynllun hyd yma a datblygiad y ddogfen Ardaloedd i'w Hadolygu. Nodwyd nad oedd 62 ysgol yn gynaliadwy ar gyfer y dyfodol.

Rhoddodd DP gyflwyniad ar ddata ysgol benodol gan gynnwys gwybodaeth ar 'addas i'r pwrpas', lleoedd gwag a dalgylchoedd. Eglurwyd y cyfrifir capasiti ysgol gan ddefnyddio fformiwla a ddarperir gan LICC yn seiliedig ar arwynebedd llawr yr ysgol. Os oedd dosbarth meithrin, ni chynhwysir yr arwynebedd llawr hwn. O ran lleoedd gwag, dim ond disgyblion amser llawn a ystyrir yn y cyfrifiad hwn.

Cyfeiriwyd at ragamcanion disgyblion a sut y cyfrifir hyn - edrychwyd ar y derbyniadau ar gyfer y tair blynedd ddiwethaf ac yna defnyddiwyd cyfartaledd i ragamcanu niferoedd disgyblion. Dros y flwyddyn ddiwethaf, roedd y rhagamcanion ar gyfer pob ysgol yn gywir o fewn 1%. Roedd rhagamcanion disgyblion hefyd yn cael eu hadolygu'n flynyddol.

Cynhyrchwyd y rhestr 'addas i'r pwrpas' trwy adolygiad o Fwletinau Adeiladu a'r awgrymiadau a gafwyd yn y cyfarfodydd ymgynghori cychwynnol. Nid oedd y rhestr yn rhestr o bethau hanfodol ond os adeiladwyd ysgol newydd, byddai'n cynnwys yr holl agweddau hyn. Os oes gan un ystafell ddau ddefnydd, dim ond y prif ddefnydd a diciwyd ar y rhestr. Nodwyd fod y ddogfen yn gywir pan y'u hargraffwyd a byddai unrhyw newidiadau dilynol yn cael eu hadlewyrchu yn y strategaeth ddrafft.

Sesiwn Cwestiwn ac Ateb (C = cwestiwn, A = Ateb, S= Sylw)

S: Rhaid sicrhau bod y ffeithiau'n gywir i ddechrau os ydych am seilio penderfyniadau arnynt.
A: Wrth gynhyrchu'r strategaeth ddrafft, bydd rhaid adolygu'r ystadegau.
S: Ers argraffu'r ddogfen, mae'r capasiti yn Nhal y Bont wedi ei ail-gyfrifo fel 60 ac nid 72. Hefyd rhaid cwestiynu rhagamcanion disgyblion.

A: Mae'r cyfrifiad ar gyfer y rhagamcanion eisoes wedi ei egluro a dros y 12 mlynedd diwethaf rydym wedi bod yn gywir o fewn 1%. Os oes newidiadau mawr mewn poblogaeth, bydd y rhagamcanion yn cael eu hadolygu. Mae'r ffigyrau hyn yn cael eu hadolygu'n flynyddol beth bynnag.

S: Mae rhagweld tair blynedd i'r dyfodol yn gadael llawer o le ar gyfer newid.

A: Dim ond man cychwyn yw hyn ac fe'i adolygir yn flynyddol.

C: A yw'r rhagamcanion yn seiliedig ar beth sy'n digwydd yn yr ysgol yn unig neu ydynt yn fwy byd-eang na hynny? Ni allaf gredu'r rhagamcanion gan fy mod yn gwybod bod mwy o blant yn yr ardal na hynny.

A: Mae gennych chi'r wybodaeth leol na allwn ei dal yn ganolog a gall hyn yn amlwg effeithio ar ragamcanion. Rydym angen yr wybodaeth hon er mwyn ein cynorthwyo wrth lunio'r strategaeth.

C: Beth yw man ymarferol?

A: Man ar wahân ar gyfer dysgu trwy chwarae.

C: Pa faen prawf sydd bwysicaf ar gyfer y rhestr 'addas i'r pwrpas'?

A: Mae'r bwletinau adeiladu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn nodi fod cael yr elfennau hyn yn ymarfer da a dylid eu cynnwys mewn unrhyw ysgol newydd a adeiladir. Nid oes unrhyw faen prawf yn bwysicach na'i gilydd.

S: Mae'r ystadegau a gyflwynir yn gweithio yn erbyn ysgolion llai. Credaf eich bod yn colli'r agweddau llai caled megis staff a phenaethiaid da. Gall cael gwahanol bethau mewn un dosbarth fod yn beth da.

S: Nid wyf yn deall pam fod y pethau hyn yn bwysig.

A: Dyma pam fod yr ymgynghoriad hwn yn bwysig. Mae'r ffeithiau yno ond rydym angen gwybodaeth leol gennych chi.

S: Mae'r ffeithiau hyn yn gwneud i rieni beidio â dewis ein hysgolion ni gan y nodir nad oes ganddynt gymaint o gyfleusterau.

C: Mae dalgylchoedd yn mynd yn erbyn y polisi derbyn.

A: Mae dewis rhieni yn statudol ac ni allwn fynd yn erbyn hyn gan mai dyma'r gyfraith. Nid oes unrhyw blant yn cael cludiant am ddim o Tyn y Groes i fynd i Ysgol Tal y Bont.

C: Mae'r ystadegau yn adlewyrchu'n wael ar gymunedau bychain.

A: Rhaid oedd bod yn gyson yn y ddogfen gyda phob ysgol.

C: Dalgylchoedd, ym mhle maent?

A: Maent wedi eu diffinio ar fap ond nid yw'r mapiau hyn ar gael ar-lein.

C: Pam fod y dalgylch yn bwysig?

A: Mae'n bwysig gan ei fod yn nodi eich ysgolion lleol. Ar hyn o bryd nid yw ysgolion lleol yn llawn gyda disgyblion lleol. Ar hyn o bryd mae nifer sylweddol o blant yn Rowen nad ydynt yn mynd i'w hysgol leol.

S: Rhaid i chi edrych ar bolisïau a'u defnyddio'r wahanol mewn gwahanol ardaloedd.

A: Bydd cyfle i chi drafod hyn yn y gweithdy.

C: A oes gennych ffigwr pendant ar gyfer nifer yr ysgolion rydych eu heisiau ar gyfer y dyfodol?

A: Nid oes gennym rif pendant ar gyfer gostyngiad. Mae 2600 o leoedd gwag ac ni allwn ddisodli'r rhif hwn ar nifer o ysgolion. Rhaid i ni fod yn ystyriol o gadw ysgolion lleol ond gallwn edrych ar ysgol ardal. Ni allwn roi rhif pendant i chi. O ran yr ardaloedd i'w hadolygu, nid yw'r tair ysgol hon wedi eu gosod gyda'i gilydd ar gyfer newid ond gallwn ail feddwl am ardaloedd ar ôl i ni gael adborth gennych chi.

S: Teimlaf fod penderfyniad eisoes wedi ei wneud gan fod angen gwneud arbedion. Dylem feddwl am safonau addysgol i ddechrau.

A: Nid ymgais i arbed arian yw'r ymarfer hwn. Mae'r arian a gawn gan LlCC yn gostwng felly rhaid i ni wneud y defnydd mwyaf effeithlon er mwyn cynnal safonau ein hysgolion. Nid ydym yn arbed arian gan fod yr arian a gawn yn lleihau a rhaid i ni ddefnyddio'r arian hwnnw i'w lawn botensial.

Eglurodd GT y gweithdy a gofynnwyd i bob ysgol drafod y penawdau ar y taflenni.

S: Trwy ddefnyddio'r penawdau hyn ar y daflen, ymddengys ein bod yn gorfod cyfiawnhau ysgolion bach yng nghefn gwlad.
A: Nid yw hynny'n wir, gallwch ddefnyddio taflenni gwag os yw'n well gennych.
C: Teimlo ein bod wedi gwneud hyn o'r blaen mewn cyfarfodydd eraill.

3. Adborth Gweithdy

Ysgol Tal-y-bont

Anghenion a lles plant

- Diogelwch
- Adeiladau addas i'r pwrpas, man cyfnod sylfaen digonol
- Nifer digonol o blant mewn dosbarth, mwy o sylw i unigolion
- Ystod eang o adnoddau
- Adnoddau digonol ar gyfer nifer y plant
- Lleol – dim teithio

Yr ysgol fel rhan o'r gymdeithas

- Dim teithio i'r ysgol
- Pobl hŷn o'r pentref yn dod i ginio
- Calon y gymdeithas
- Cyngherddau Nadolig, ffeiriau etc.
- Teulu – pawb yn dod ymlaen
- Gweler defnydd o'r adeilad
- Creu gwaith i bobl leol
- Nid yw plant yn gwneud ffrindiau yn eu hardal eu hunain os ydynt yn eu cludo i ysgol arall

Gwerthoedd ysgolion gwledig

- Calon y gymdeithas
- Pawb yn adnabod ei gilydd
- Hanes - cenedlaethau o'r un teulu yn mynd i'r un ysgol
- Cydweithrediad gyda sefydliadau eraill yn y pentref
- Rhoddir cyfle i bob plentyn gymryd rhan ym mhob gweithgaredd
- Caniateir i bob plentyn ddatblygu ar ei lefel ei hun
- Nid yw disgyblaeth yn broblem
- Cyswllt agos rhwng rhieni a staff
- Ni fydd cau ysgolion yn adfer bro

Defnydd cymunedol o'r adeiladau

- Pobl hŷn
- Cyfrifiaduron
- Cydweithrediad â phwyllgor y cae chwarae i wella'r amgylchedd e.e. plannu bylbiau, codi arian ar gyfer y cwrt pob tywydd
- Urdd
- Campau'r Ddraig
- Gweithgareddau codi arian e.e. casglu dillad, golchi ceir, gwerthiant cist ceir, rhostio mochyn, plant mewn angen
- Ailgylchu
- Cyngerdd Nadolig
- Gwasanaeth diolchgarwch
- Pwyllgor eisteddfod yr Urdd

Adeiladau ac adnoddau

- Ardal ymarferol
- Ardal TG/technoleg
- Ardal wlyb

- Llyfrgell
- Ardal addysg awyr agored
- Ystafell AAA neu ystafell grŵp bychan
- Cae chwarae a chae pob tywydd a chwrt tennis
- Man chwarae caled
- Ardal chwarae meithrin caeedig
- Wal fowldro
- Ystafell staff
- Ystafell weithio i staff
- Swyddfa'r pennaeth
- Ffreutur
- Safle yn addas i'w addasu

<u>Addysg mewn ardal wledig</u>

- 75% yn mynd i brifysgol
- Dosbarthiadau llai – plant yn cael mwy o sylw
- Adnoddau
- Cyfleoedd yn gynt
- Pawb yn cael cyfle
- Digon o le i'r cyfnod sylfaen a chyfle i ddefnyddio'r cau chwarae a'r pwll natur

<u>Materion cymdeithasol</u>

- Colli gwaith i bobl leol
- Colli cymdeithas
- Iaith
- Disgyblaeth
- Parch yn y gymdeithas

- Cydweithrediad rhwng yr ysgol, y gymdeithas a phobl hŷn
- Grŵp meithrin yn yr ysgol

Ysgol Dolgarrog

Yr ysgol fel rhan o'r gymdeithas

- Pobl leol yn cyfrannu at addysg plant
- Canolbwynt ar gyfer digwyddiadau lleol i grwpiau o bob oed sy'n byw yn yr ardal
- Cefnogaeth gan bob cenhedlaeth yn nigwyddiadau'r ysgol
- Clybiau allgyrsiol yn cyfoethogi dysgu ehangach plant e.e. clwb coginio, urdd, pêl-droed, clwb TG, clwb gymnasteg, clwb garddio
- Cysylltiadau agos â busnesau lleol

Materion cymdeithasol

- Cau'r gwaith alwminiwm – datblygu'r safle yn golygu cynigion ar gyfer tai teuluol fforddiadwy
- Plant a ffrindiau / cyfoedion yn agos at ble maent yn byw
- Digwyddiadau cymunedol yn yr ysgol
- Cefnogaeth gref ar gyfer 'Ffrindiau'r Ysgol'

Defnydd cymunedol o'r adeilad

- Y Pentan – defnyddio'r adeilad i rwymo'r papur
- Côr meibion yn defnyddio'r adeilad
- Unig ddarpariaeth allgyrsiol yn y pentref
- Clwb ar ôl ysgol Clwb Garrog
- Dawns i bawb – Campau'r Ddraig
- Lleoliad ar gyfer gemau chwaraeon e.e. pêl-droed, ar gyfer ysgolion Dyffryn Conwy
- Uned iaith Gymraeg
- Ti a Fi, Ysgol Feithrin

Addysg mewn ardal wledig

- Dosbarthiadau bach
- Plant yn gallu cerdded i'r ysgol – cefnogi amcanion byw'n iach ac ymwybyddiaeth amgylcheddol
- Datblygu a meithrin teimlad o gymdeithas
- Darpariaeth un i un yn ardderchog
- Pob plentyn yn cael cymryd rhan ym mhob gweithgaredd. Rhoddir cyfle i bawb i archwilio gwahanol feysydd e.e. dramâu ysgol, timau chwaraeon
- Staff yn gallu bod yn ymwybodol o faterion lleol ac ymateb yn sensitif iddynt
- Cyd-fynd ag ethos y cyfnod sylfaen
- Mynediad rhwydd at ddysgu y tu allan i amgylchedd y dosbarth

<u>Gwerthoedd ysgolion gwledig</u>

- Ysgolion gwledig llai yn tynnu'r gymdeithas at ei gilydd – llai o broblemau ymddygiad
- Meithrin hunaniaeth
- Annog parch tuag at yr ardal leol
- Ymateb i anghenion y gymdeithas e.e. darparu brecwast a chlybiau ar ôl ysgol i gefnogi rhieni sy'n gweithio
- Amgylcheddol gyfeillgar – anghenion isel o ran cludiant
- Ymwneud rhieni

<u>Adeiladau ac adnoddau</u>

- Lle posib i ddatblygu a buddsoddi yn y safle
- Cyfleusterau wedi eu haddasu ar gyfer yr anabl
- Uned iaith Gymraeg
- Safon uchel o adnoddau TGCh integredig yn y dosbarthiadau
- Swyddfa'r Athrawon Bro
- Dosbarth awyr agored / cyfleusterau ardal natur ar y safle

<u>Anghenion a lles plant</u>

- O ganlyniad i gau'r gwaith alwminiwm, y siop a'r swyddfa bost nifer o blant wedi cael profiadau o anawsterau cymdeithasol ac economaidd yn eu teuluoedd – mae angen sefydlogrwydd ac mae'r ysgol yn chwarae rhan bwysig wrth gynnal hyn

- Dosbarthiadau bach – mwy o gefnogaeth unigol. Adnabod AAA ac anghenion eraill yn gynt

- Staff yn adnabod eu plant a'u teuluoedd

- Lle i chwarae a gallu cerdded i'r ysgol - mae hyn yn gysylltiedig â'r pwyslais ar 'heini am oes' a strategau iechyd a lles

Ysgol Rowen

<u>Yr ysgol fel rhan o'r gymdeithas</u>

- Y gymdeithas fel rhan o'r ysgol – hyn yn hanfodol!

- Byddai colli'r ysgol yn dinistrio ein cymdeithas: dim cyngerdd Nadolig i bensiynwyr, dim meithrin, dim cyfle i ail ddechrau'r clwb ieuenctid, dim teuluoedd ifanc, dim tai cymdeithasol, effaith fawr ar y carnifal a'r siop a'r Ysgol Sul, colli'r Gymraeg, colli cyflogwr lleol

- Gwirfoddolwyr yn dod i'r ysgol – pobl eisiau cymryd rhan

- Angen gwerthuso cyfraniad economaidd yn ofalus

- Mae ffrindiau a wneir fel ffrindiau ifanc yn tueddu i bara, gan ddal y gymdeithas ynghyd mewn blynyddoedd i ddod

<u>Anghenion a lles plant</u>

- Teimlad cryf iawn o gymdeithas

- Cadw plant ifanc iawn oddi ar fws ysgol

- Ysgolion bach yn llai brawychus i blant tair blwydd oed

- Cysylltiadau cryf rhwng y meithrin a'r ysgol yn bosibl mewn ysgol bentref

- Awyrgylch teuluol yn gyson â deinamig bywyd gwledig (pawb yn adnabod pawb etc)

- Pwysig mai Cymraeg yw iaith buarth yr ysgol – ysgol fach yn sicrhau hyn

- Yn aml iawn nid yw rhieni eraill o ysgolion eraill yn y dyffryn yn fy nghredu pan ddywedaf mai Cymraeg yw iaith y buarth yn Rowen er mai dim ond dau deulu sy'n siarad Cymraeg fel iaith gyntaf. Mae fy mechgyn

i yn hollol hapus i chwarae trwy'r Gymraeg er mai Saesneg rydym yn ei siarad gartref. Mae Rowen yn ardderchog yn y cyswllt hwn.

Addysg mewn ardal wledig

- Hanfodol er mwyn osgoi dirywiad pellach o'r economi wledig
- Dim ysgol yn arwain at: dim mewnfudwyd ifanc, dim tai cymdeithasol, poblogaeth sy'n heneiddio, cymdeithas sy'n marw
- Bydd yn costio mwy - angen cael arian LICC i ariannu addysg yn ôl lleoliad NID un fformiwla i bob ysgol
- Angen arian LICC - gyrrir gan gyfalaf, dim ystyriaeth o safonau addysgol, mae gan ysgolion llai safonau cyrhaeddiad uwch; addasu'r addysgu ar gyfer unigolion
- Nodau: angen ychwanegu - pob plentyn yng Nghonwy i adael yr ysgol gynradd yn gallu darllen ac ysgrifennu a gwneud mathemateg
- Yn aml gwelir ysgolion bach fel 'targed rhwydd' ar gyfer cau - gwell canlyniad fyddai cyfuno ysgolion sy'n nes at ei gilydd yn ddaearyddol mewn ardaloedd trefol

Defnydd cymunedol o'r adeiladau

- Sgyrsiau Cymraeg
- Meithrin
- Cyngerdd a pharti i bensiynwyr
- Clwb ar ôl ysgol
- Gwersi Sbaeneg a Ffrangeg
- Ffair grefftau
- Rhan o erddi agored
- Clwb brecwast
- Cynnig defnydd o'r goedwig/coetir i ysgolion eraill (heb ei ystyried yn yr ystadegau a gyflwynwyd) ymarfer da diweddaraf
- Defnyddir neuadd y pentref gan yr ysgol

Materion cymdeithasol

- Ffordd dda iawn i fewnfudwyd i Gymru / y pentref ddysgu Cymraeg a dod yn rhan o'r gymdeithas

- Os na fyddai ysgol, dim angen dysgu Cymraeg – gan y byddent yn mynd i ysgol Saesneg

- Y Gymraeg - dim ysgol yn golygu dim teuluoedd a thuedd tuag at bobl hŷn (rhan fwyaf yn siarad Saesneg) a thai gwyliau…Seisnigeiddio cymdeithas Gymraeg wledig

- Cysylltiadau cryf ar draws grwpiau oedran y gall fod o gymorth wrth symud i'r ysgol uwchradd

- Plant yn cymdeithasu yn nigwyddiadau eraill yr ysgol, clwb rygbi etc

- Mae plant yn fwy diogel mewn amgylchedd ble y'u hadnabyddir fel unigolion

- Mae ein disgyblion ni yn aros mewn cysylltiad. Ffrindiau a wnaed yn parhau i gyfrannu i fywyd y pentref (gweler grŵp Facebook o gyn-ddisgyblion Rowen)

<u>Adeiladau ac adnoddau</u>

- Nid yw adeiladau ac adnoddau yr un fath – rhieni yn hapus gyda'r adeilad

- Adeilad:

- Nid yw addysg yn broses ddiwydiannol

- Os yw'n ddigonol ar gyfer anghenion popeth yn iawn, nid yn seiliedig ar fformiwla

- Byddai estyniad bychan yng nghefn yr adeilad yn datrys nifer o'r problemau a godwyd

- Adnoddau:

- Mantais cymdeithas ysgol fach (rhieni) yn darparu nifer o adnoddau

- Digonol ar gyfer y sefyllfa bresennol, adroddiad 'addas i'r pwrpas' yn gamarweiniol

- Mae gennym adnoddau cyfnod sylfaen ardderchog; pren, gerddi, dosbarth awyr agored

<u>Gwerthoedd ysgol wledig</u>

- Efallai y byddai'n well grwpio Rowen gyda Llangelynnin

- *'If it ain't broken, don't fix it'*

- Dalgylchoedd yn ddiystyr – pa un sydd agosaf ar hyd y ffordd? Polisi gwahanol mewn ardaloedd trefol ble mae'r holl ysgolion yn nes at ei gilydd

- Ystadegau yn ddiffygiol mewn samplau bychain

- Dull 'cyson' yn ddiffygiol mewn gwledig yn erbyn trefol

- Economeg ymchwil yn dangos nad yw cyfuno yn arbed arian – rhaid cynnwys unrhyw gostau cyfalaf

- Bydd newidiadau i ysgolion mwy yn cael mwy o effaith ar ffigyrau cyffredinol. Bydd yr effaith ar ysgolion bach, gwledig a phentrefi yn llawer gwaeth. Nid yw'r sefyllfa yr un fath i bawb

- Bodlon gweithio'n agosach ar y cwricwlwm etc

- Cyfalaf dynol yn gysylltiedig â'r ysgol, rhwydweithiau yn llawer mwy mewn ysgolion gwledig

- 2 sefydliad 3^{ydd} sector mewn perygl os newidir trefniant yr ysgol

- Arbedion / effaith ffiniol ar ystadegau gyfer effaith negyddol fwyaf os yw Rowen o dan fygythiad - rhwystro cyfle i gael arian - awgrymu mynd i rywle ble mae cyfle ac awydd i newid (nid Rowen)

- Economi wledig angen busnes o werth uchel e.e. sawl busnes yn Rowen. A fyddai perchnogion busnes yn dewis Rowen pe na byddai ysgol yno? Na!

- Addysgu Cymraeg i blant yn eu hardal leol er mwyn iddi ddatblygu'n iaith y gymdeithas

- Ysgol wledig – bach – trin plant fel unigolion

- Hyrwyddo dinasyddiaeth, plant yn geidwaid cefn gwlad i bawb yn y dyfodol, angen iddynt ddeall eu hamgylchedd lleol

Dywedodd GT y bydd yn casglu'r holl wybodaeth a'r adborth trwy'r penaethiaid. Gellir parhau i gyflwyno syniadau a safbwyntiau ar ôl y cyfarfod hwn ar e-bost at TJB neu'r Gwasanaethau Addysg a darperir hyn trwy'r penaethiaid.

4. Sesiwn cwestiynau ac ateb terfynol (C = cwestiwn, A = Ateb, S = sylw)

S: O ran canlyniadau addysgol ein hysgolion, hoffwn allu cymharu ein rhai ni ag ysgolion eraill. Byddai hyn yn dangos y safonau uchel mewn ysgolion bach. Mae ysgolion bach yn creu awyrgylch deuluol a allai annog plant i anfon eu plant o ardaloedd arfordirol i'n hysgolion.

A: Safonau yw'r allwedd i'r broses hon. Rydym yn falch iawn o'r safonau uchel a gyrhaeddir yn ein hysgolion. Rhaid i ni gael strategaeth i gael mwy o arian cyfalaf i wella adeiladau ac rydym angen gwybod gennych chi sut allwn fuddsoddi yn yr ardal hon.

S: Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau i ni ynghylch posibiliadau ar gyfer y dyfodol, ni chyflwynwyd unrhyw opsiynau i ni.

S: Rydym yn hapus gyda'r sefyllfa bresennol.

A: Felly bydd buddsoddiad mewn adeiladau yn cael ei flaenoriaethu mewn ardaloedd eraill ble mae gan ardaloedd ddiddordeb mewn newid.

S: Ni allwch ofyn i ni feddwl 'y tu allan i'r bocs' os nad ydych yn cyflwyno unrhyw opsiynau i ni i ddechrau. Nid wyf yn meddwl eich bod wedi bod yn onest gyda ni.

S: Nid ydych wedi cyflwyno mewn modd eglur. Nid ydych wedi awgrymu y gall ysgolion gau yn yr ardal hon.

A: Wedi nodi nad yw 62 ysgol yn gynaliadwy ond ymddiheuriadau am beidio â gwneud pethau yn fwy eglur.

C: Os yw adeiladau mor bwysig, nid oes rhaid iddo olygu cau. Mae ffyrdd o gydweithio heb gau adeiladau.

A: Mae'n fwy nag ond adeiladau. Rydym yn wynebu ysgolion sydd â niferoedd yn gostwng. Gall ffederaleiddio fod yn opsiwn ar gyfer yr ardal hon ond nid oeddem eisiau dod yma yn cyflwyno un opsiwn. Ni allwn gymharu safonau addysgol yn y ddogfen gan nad yw'n deg oherwydd nifer y plant ym mhob ysgol.

S: Ers Rhagfyr 2005, bu trafodaethau ynghylch cau'r ysgol yn Rowen. Mae hyn yn effeithio ar nifer y rhieni sy'n dewis anfon eu plant i Rowen.

A: Mae adolygiad parhaus i bob ysgol ond y tro hwn bydd newidiadau yn digwydd trwy flaenoriaethu.

S: Mae dal yn ymwneud â chau ysgolion bach.

A: Nid ond yn ymwneud ag ysgolion bach, mae ardaloedd eraill gydag ysgolion mwy sydd o dan adolygiad dechreuol.

S: Mae effaith gwneud newidiadau mewn ardal wledig yn fwy nag ar yr arfordir. Nid oes gan yr ysgolion arfordirol yr un synnwyr o gymdeithas a'r rhai yng nghefn gwlad.

A: Mae gan bob ysgol synnwyr o gymdeithas ble bynnag y maent.

S: Ychydig iawn o wasanaethau sydd yng nghefn gwlad a'r ysgolion yw'r unig bethau rydym eisiau eu cadw.

S: Teimlaf eich bod yn cymryd llawer o bethau yn ganiataol. Os ydych yn adeiladu ysgol ardal, nid yw'n golygu y byddem yn anfon ein plant yno.

A: Rydym wedi profi'r ddwy ochr i'r geiniog gyda'r mater hwn. Weithiau mae adeiladu ysgol newydd ac nid yw plant yn mynd yno, weithiau mae ysgol newydd yn denu llawer mwy o blant newydd.

S: Mae caniatáu dewis i rieni yn effeithio ar niferoedd.

A: Mae dewis rhieni yn gyfraith statudol.

C: A ydych wedi gwneud ymchwil ar pam fod rhieni yn dewis ysgolion eraill?

A: Heb wneud eto gan ein bod yn parchu hawl rhieni i ddewis, ond gellir gwneud yn y dyfodol i ychwanegu at y strategaeth.

C: Pam na allwn drafod yr opsiynau sydd ar gael i ni yn y cyfarfod hwn? Nid yw'r cyfarfod hwn wedi rhoi unrhyw syniad i ni o'r hyn a all ddigwydd i'n hysgolion yn y dyfodol. Byddem wedi dymuno edrych ar fanteision ac anfanteision yr opsiynau.

A: Dyma gam nesaf yr ymgynghoriad.

C: A fyddwn yn cael cyfle i fod yn rhan o hynny?

A: Bydd y strategaeth ddrafft yn cynnwys yr holl opsiynau a'r opsiwn a ddymunir ar gyfer pob ardal. Byddwn yn ymgynghori ar y strategaeth ddrafft hon. Mae hwn wedi bod yn gyfarfod gwerthfawr i ni. Cafwyd adborth gwahanol ledled y sir. Mae rhai ardaloedd eisiau newid. Mae nifer o opsiynau gwahanol a ellir eu trafod.

C: Os fydd ysgolion yn cau, beth fydd yn digwydd i staff?

A: Ar ôl i ni ddechrau edrych ar opsiwn a ddymunir, byddwn yn sefydlu tîm adnoddau dynol i drafod popeth gyda'r Undebau a chynghori staff. Ni allwn warantu na fydd swyddi yn cael eu colli ond gan na fydd newidiadau yn digwydd am 5 - 15 mlynedd gallwn ddefnyddio gwastraff naturiol.

S: Cydraddoldeb mynediad at adnoddau o ran cost fesul disgybl – a ydych yn ceisio gwneud hyn yn gyfartal ym mhob ysgol? Pa mor bell allwch gymryd y polisi hwn?

A: Deall na fydd y ffigwr hwn byth yr un fath ym mhob ysgol ond hoffwn ei ostwng i ystod fwy derbyniol. Felly mae angen i ni ei fuddsoddi cyn effeithlon ag sy'n bosib.

S: Teimlo bod cydraddoldeb gwariant yn ymrannol yn wleidyddol. Pa mor gyfartal ydych eisiau iddo fod?

A: Angen costio'r opsiynau a ddymunir a gweld beth yw ystod y gwariant.

Diolchodd GT i bawb am eu presenoldeb a'u cyfraniad i'r cyfarfod gan y cafwyd llawer o wybodaeth bwysig.

Wal bryderon/syniadau

- Gofal ymestynnol yn bwysig a dibyniaeth ar wirfoddolwyr lleol
- Cymdeithas
- Agweddau cymdeithasol - mwy o effaith yma nag mewn ysgol arfordirol, llawer mwy i'w golli
- Cludo plant o'u 'bro', sut allant wneud ffrindiau yn lleol?
- Ysgol newydd wedi ei hadeiladu'n lleol heb le ar gyfer grŵp meithrin
- Llai o gyfleoedd a phrofiadau i blant mewn ysgol fawr
- "cydraddoldeb mynediad at adnoddau" - a yw'r cyngor yn cydnabod y bydd y gwariant fesul disgybl bob amser yn uwch mewn ysgolion llai, a bydd ysgolion gwledig bob amser yn llai na rhai trefol. Os felly, beth yw'r 'targed' ar gyfer cydraddoldeb mynediad at adnoddau? Ni all fod yn gydraddoldeb gwariant fesul disgybl, felly pa mor 'gydradd' sydd angen iddo fod.
- Sut all 'addas i'r pwrpas' fod yn gyfwerth â 'safonau addysgol' fel gyrrwr? Y peth pwysicaf yw safonau addysgol wrth gwrs.
- Ymddengys nad oes gan y meini prawf 'ble mae disgyblion yn byw' unrhyw bwysigrwydd heblaw ei fod yn bolisi sirol. Nid yw ei berthnasedd i'r rhaglen foderneiddio yn glir. Nid yw'n ddangosydd dibynadwy o gysylltiad yr ysgol â'i bro.
- Pam fod man ymarferol Ysgol Dolgarrog yn cael ei ddangos fel 'yn y dosbarth' tra bod pethau eraill sy'n defnyddio un ystafell yn y tair ysgol yn cael eu dangos fel 'ar goll'
- Pe byddai'r AALl yn cefnogi'r ysgol a chodi'r bygythiad o gau gallwn ddenu mwy o blant, mae hyn wedi parhau ers Rhagfyr 05

- Beth am yr holl staff ysgol?
- Bygythiad o gau yn ymyrraeth yn ei hun
- Cadw ysgolion ar wahân, ond cydweithio ar rai gweithgareddau
- Efallai newid teitl yr ymgynghoriad gan nad yw rhai rhieni yn deall difrifoldeb y sefyllfa
- Cyfradd genedigaethau yn cynyddu ar raddfa ddigynsail - rhagamcanion yn adlewyrchu beth? Derbyn economi sy'n dirywio
- FFAITH – mae ardaloedd gwledig YN gryfach ac mae pobl yn dibynnu mwy ar ei gilydd
- Mae Ysgol Rowen yn dod a phobl Rowen at ei gilydd, sy'n hynod o bwysig gan ystyried sawl ail gartref a phobl sydd wedi ymddeol sydd yn y pentref
- Rhaid i blant ysgol gwledig gyrraedd yr un safonau addysgol a'r rhai o ysgolion trefol, neu well
- Yr ysgol yw calon y gymdeithas
- Data yn gamarweiniol/anghywir ac yn rhoi argraff ffug, proffwydoliaeth hunan gyflawni
- Dalgylchoedd, peidiwch â gwneud unrhyw benderfyniadau nes eich bod yn glir ynghylch pam eu bod yn bwysig (nid yn glir o gwbl hyd yma) a'u bod yn cael eu diffinio yn gywir, a'ch bod wedi deall rhai o'r rhesymau pam fod rhai plant yn mynd i ysgolion y tu allan i'w dalgylch
- A fyddai gan adeilad newydd le ar gyfer Mudiad Ysgolion Meithrin (ysgol feithrin)?
- A oes unrhyw un o blaid moderneiddio?
- Cymdeithas y pentref yn marw
- Pellter – llawer o deithio i blant dwy flwydd oed
- Dosbarthiadau mwy – llai o sylw un i un a darganfod problemau
- Ysgol feithrin - colli lleoliad addas i'r pwrpas - os yw'r ysgol yn cau bydd sefydliadau eraill y pentref yn cau
- Byddai ysgol ardal newydd dal yn fach yn ôl eich rhagamcanion chi, perygl o ddiffyg adnoddau
- Mae safonau addysgol yn allweddol, mae gennym ysgolion da, gadewch i ni ddenu mwy o blant gan leihau'r bygythiad o gau
- Colli'r Gymraeg

- Rhowch y gefnogaeth i ni dyfu. Rydym eisoes yn llwyddiannus – gadewch i ni barhau

- Nid yw 5-7pm yn amser da i gynnal cyfarfod os ydych eisiau ymgynghoriad cyflawn gyda rhieni

- Gallwn edrych ar opsiynau sy'n arbed arian heb ystyried cau

- Colli'r iaith

- Beth fydd mantais ysgol ardal? Bydd gan y cyngor ddau adeilad gwag ond bydd dwy ardal yn colli eu hysgolion, collir swyddi lleol, bydd plant yn colli eu synnwyr o berthyn

- Poeni am y safonau a dyfodol y Gymraeg

- A oes llai o swyddi yn yr ysgolion?

- Ni ddylai plant bach fynd ar fysiau

- Mae gan Ysgol Rowen le mor gryf yn y pentref / cymdeithas, e.e., mae'r holl bensiynwyr yn dod i'r cyngerdd Nadolig a'r rhai heb unrhyw gysylltiad uniongyrchol â'r ysgol

- Mae eich adroddiad chi yn awgrymu fod diffyg cyfleusterau yn y tair ysgol ac felly yn is-safonol yn addysgol. Ymddengys eich bod yn ceisio gwthio rhieni newydd i ffwrdd

- Poeni am yr ystadegau a ddefnyddiwyd gan y cyngor - anghywir

- Angen ystyried ffurfiau a strwythurau newydd ar gyfer ein hysgolion. Ysgolion aml-safle, athrawon ac adnoddau symudol. Rhaid i'r 'ateb' ar gyfer ysgolion gwledig fod yn fwy creadigol

- Amhosib gwneud penderfyniadau gwybodus heb gyfeirio at ganlyniadau addysgol. Nid oes gennym ddata ar ganlyniadau

- Mae'r difrod eisoes wedi ei wneud – yn llygaid y cyhoedd, ysgolion bach fydd yn cau – felly dim plant newydd i'r ysgolion hynny

- A yw wedi ei brofi fod ysgolion mwy yn well ar gyfer ein plant?

- (ysgol feithrin) - colli swyddi lleol - 6 staff rhwng y tair ardal

- Poeni fod penderfyniad eisoes wedi ei wneud, ymddangos fel ymgynghoriad arwynebol

- Plant yn parchu eu hardal leol

- Dinistrio hanes a thraddodiad y pentref

- Yn y graffiau rydych yn cydnabod y rhieni sy'n mynd allan o'r ardal ar gyfer addysg Gymraeg ond nid Saesneg. Sawl plentyn o'n pentref ni yn mynd i ysgol Saesneg ar gyfer yr iaith

- Beth fydd yn digwydd i'r adeilad? Adeiladu tai heb ysgol ar gyfer y plant!
- A arbedir unrhyw arian trwy gyfuno? A sut fydd addysg yn dioddef gyda dosbarthiadau mwy
- Dim byd o'i le ar grwpiau oedran cymysg – addysgu empathi a dealltwriaeth
- Newid dalgylchoedd ysgol heb ymgynghori
- Niferoedd yn ein hysgol yn y 10 mlynedd diwethaf
- Rhoi arian i grwpiau o ysgolion weithio gyda'i gilydd
- Nid yw'r ystadegau fel y'u cyflwynir yn gwneud unrhyw ffafrau i ysgolion bach yn llygaid y cyhoedd
- Mae cenedlaethau o deuluoedd wedi bod i'r ysgol
- Nid wyf yn derbyn y rhagamcanion ar gyfer Ysgol Rowen, yn seiliedig ar nifer y bobl yn y pentref
- Mwy o gyfleoedd i bawb mewn ysgol lai
- Rhaid ystyried yr effaith economaidd ar y gymdeithas
- Gall athrawon ganfod problemau mewn plant yn gynt mewn ysgol lai
- Perygl o wneud dosbarthiadau oedran cymysg yn rhy fawr (mae hyn yn gweithio'n dda mewn dosbarthiadau llai)
- Dylai gwybodaeth leol ychwanegu at yr ystadegau
- Dylai safonau addysgol ac adroddiadau arolwg fod cyn bwysiced a'r wybodaeth ystadegol
- Faint o 'bwysau' a roddir ar y dangosyddion ystadegol
- A ydych yn ystyried y ffeithiau 'meddal' yn ogystal â'r ystadegau?
- Pa mor berthnasol yw dalgylchoedd – pan fo dewis rhieni yn hawl cyfreithiol?
- Mae rhifau bychain yn gamarweiniol iawn pan ddefnyddir canrannau
- A yw dalgylchoedd yn seiliedig ar godau post a ffiniau plwyfi yn adlewyrchu'r realiti? Pam eu bod yn bwysig?
- Nid oes gan ardaloedd gwledig fynediad at gymaint o wasanaethau ag ysgolion trefol